Tachwedd 2025

# Canfyddiadau arolwg rhwydwaith bysiau De-orllewin Cymru

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Cynnwys ........ 2
Crynodeb gweithredol ........ 3
  Prif ganfyddiadau ........ 3
Dull ymgysylltu ........ 4
  Cyflwyniad ........ 4
  Llinell Amser ........ 4
  Beth wnaethon ni ymgysylltu arno ........ 4
  Pwy wnaethon ni ymgysylltu â nhw ........ 5
  Sut wnaethom ymgysylltu ........ 5
Hyrwyddo'r ymgysylltu ........ 7
Canfyddiadau Cychwynnol ........ 8
  Cyflwyniad ........ 8
  Demograffeg ........ 8
  Crynodeb o'r canfyddiadau ........ 8
  Crynodeb o'r canfyddiadau; data meintiol ........ 9
  Crynodeb o'r canfyddiadau: data ansoddol ........ 12
  Themâu o'r Digwyddiadau Galw Heibio Cymunedol ........ 13
  Ymatebion Rhanddeiliaid ........ 14
Y camau nesaf ........ 16

# Crynodeb gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn gweithio gyda gweithredwyr bysiau a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru i ddiwygio'r gwasanaethau bysiau. Yn y cynllun newydd, sy'n cael ei alw'n fasnachfreinio, bydd penderfyniadau am wasanaethau bysiau yng Nghymru (gan gynnwys llwybrau, amserlenni, prisiau, oriau gweithredu a'r safon ansawdd gwasanaeth), yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a TrC. Mae rhagor o wybodaeth am fasnachfreinio ar gael yma.

Fel rhan o'r cam cyntaf i ddiwygio'r bysiau, mae TrC ac awdurdodau lleol wedi datblygu cynnig ar y cyd ar gyfer y rhwydwaith bysiau yn Ne-orllewin Cymru. Rydym wedi galw hwn yn Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig. Gallwn ddarparu'r rhwydwaith hwn o fewn cyfyngiadau ein hadnoddau presennol.

Fe wnaethom ofyn am adborth gan y cyhoedd ar y rhwydwaith hwn yn Ne-orllewin Cymru rhwng 1 Gorffennaf a 23 Medi 2025. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau cychwynnol y gweithgaredd ymgysylltu a'r adborth a gafwyd a'r camau nesaf y byddwn yn eu cymryd.

## Prif ganfyddiadau

Cawsom 662 o ymatebion i'r arolwg dwyieithog, ar-lein a chyflwynodd 18 ymatebion ar bapur rhwng 1 Gorffennaf a 23 Medi 2025. Fe wnaethom hefyd gasglu safbwyntiau drwy weithdai i randdeiliaid a chymunedau ac mewn digwyddiadau galw heibio i'r cyhoedd.

Dyma beth wnaethom ei ganfod:

- Roedd cysylltu gwasanaethau bysiau a threnau yn bwysig i bobl yn Ne-orllewin Cymru - byddai 60.0% o'r ymatebwyr yn fodlon cyfnewid rhwng bysiau neu drenau pe bai hynny'n golygu eu bod yn gallu cyrraedd pen eu taith yn gynt.
- Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno y dylid ystyried newidiadau i'r rhwydwaith sy'n gwella lefel y gwasanaeth i'r mwyafrif o bobl, hyd yn oed os yw hynny'n achosi anhwylustod i rai pobl.
- Roedd 27.0% o'r ymatebwyr o'r farn y bydd ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig ar gyfer 2027 yn well i Dde-orllewin Cymru. Mae 55.8% yn credu y bydd yr un fath neu ddim yn siŵr, ac mae 17.3% yn credu y bydd yn waeth.
- Roedd gwasanaethau anaml a diffyg gwasanaethau bore, gyda'r nos ac ar ddydd Sul yn thema gyffredin.
- Roedd yn anodd casglu barn pobl ifanc, gyda dim ond 2.8% o'r ymatebwyr yn bobl dan 25 oed.

Bydd llwybrau ac amlder Rhwydwaith Sylfaen newydd y De-orllewin yn cael eu pennu gyda'r awdurdodau lleol partner erbyn mis Rhagfyr 2025 a chânt eu rhannu mewn adroddiad. Bydd Rhwydwaith Sylfaen newydd y De-orllewin hefyd yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru. Mae casglu barn y cyhoedd yn sicrhau ein bod yn gallu cywreinio'r gwasanaethau sy'n gweithredu yn Ne-orllewin Cymru yn 2027.

# Dull ymgysylltu

## Cyflwyniad

Cyn lansio'r ymarferiad i ymgysylltu â'r cyhoedd fe wnaethom gyhoeddi **Ein hymrwymiad i gynnwys cymunedau yn Ne-orllewin Cymru** ym Mehefin 2025. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein nod i gynnwys cymunedau mewn cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

## Llinell Amser

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ein platfform ar-lein, drwy 'Dweud eich Dweud' TrC, drwy weithdai i randdeiliaid a sesiynau galw heibio i'r cyhoedd rhwng 1 Gorffennaf a 23 Medi 2025. Cyflwynir y gweithgaredd ymgysylltu a'r adborth yn yr adroddiad cychwynnol hwn.

Ein nod yw paratoi ail adroddiad ym mis Rhagfyr 2025 a fydd yn cynnwys:

- rhagor o fanylion am ganfyddiadau'r gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd
- manylion am y rhwydwaith sylfaen newydd,
- sut mae'r adborth gan y cyhoedd wedi llywio'r rhwydwaith
- y camau nesaf at fasnachfreinio gwasanaethau bysiau yn y rhanbarth a chyflwyno'r rhwydwaith hwn yn 2027.

## Beth wnaethon ni ymgysylltu arno

Rydyn ni wedi defnyddio'r rhwydwaith presennol fel y man cychwyn ar gyfer creu ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig ac wedi gwneud rhai gwelliannau arfaethedig, ar sail:

- Cael rhwydwaith symlach y mae'n hawdd ei esbonio, ei gofio a'i ddefnyddio
- Llwybrau craidd sy'n cynnig gwasanaethau aml a all ddenu'r nifer uchaf o deithwyr
- Cysylltiadau rhwng gwasanaethau bysiau er mwyn galluogi siwrneiau cyflymach i fwy o gyrchfannau posibl
- Rhai gwasanaethau mwy uniongyrchol.

Fe wnaethom gyflwyno manylion y rhwydwaith sylfaen arfaethedig drwy gyfres o fapiau (gydag allwedd yn dangos lle roeddem yn cynnig gwneud newidiadau i'r llwybrau a/neu'r amlder) yn ogystal â map rhyngweithiol a dogfennau disgrifiadol i ddarllen drwyddynt (mae dolenni i'r dogfennau hyn i'w cael yn atodiad A). Fe wnaethom baratoi gwybodaeth ddefnyddiol arall fel cwestiynau cyffredin, gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Bysiau a ffyrdd o gysylltu â ni (mae dolenni i'r wybodaeth hon ar gael yn atodiad A).

Fe wnaethom ofyn i bobl roi adborth ar wasanaethau penodol ac ar ardal gyffredinol o'u dewis, gan ofyn cwestiynau er mwyn deall effaith unrhyw newid ac am eu barn ar sut a phryd y dylai gwasanaethau redeg.

Fe wnaethom gasglu gwybodaeth a safbwyntiau ar sut rydyn ni’n delio â chyfaddawdau fel siwrneiau cyflymach os yw hynny'n golygu mwy o newidiadau a chael bysiau'n nes at adref hyd yn oed os yw hynny'n golygu siwrnai hirach.

Fe wnaethom hefyd geisio adborth cyffredinol, fel, sut mae pobl yn teimlo am y rhwydwaith sylfaen arfaethedig ac a fydd yn gwneud pethau'n well ynteu’n waeth.

Cafodd yr arolwg ei gynnal yn ddigidol a'i argraffu i’w ddefnyddio yn y digwyddiadau. Gweler atodiad B am y fersiwn argraffedig o’r arolwg yn ei gyfanrwydd.

## Pwy wnaethon ni ymgysylltu â nhw

Fe wnaethom ymgysylltu â'r grwpiau rhanddeiliaid sy’n ffurfio Pensaernïaeth Cynghori TrC, ein rhwydwaith o baneli sy'n cefnogi, yn herio ac yn craffu ar ein gwaith. Ymgysylltir â'r rhwydwaith hwn fel rhan o gylch rheolaidd o sesiynau a gynhelir bob deufis neu bob chwarter.

Fe wnaethom ymgysylltu â phobl ar draws awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Fe wnaethom hefyd ymgysylltu â sefydliadau rhanddeiliaid a chynrychiolwyr ar draws y rhanbarth, gan gynnwys o awdurdodau lleol, byrddau iechyd, addysg, busnesau a'r trydydd sector.

Gweler atodiad C am restr gyflawn o'r rhanddeiliaid y cysylltwyd â nhw ac atodiad D am y cyfarfodydd/gweithdai a gynhaliwyd.

## Sut wnaethom ymgysylltu

### ‘Dweud eich Dweud’ TrC

Fe wnaethom ofyn am adborth ar y Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig, yn bennaf drwy 'Dweud eich Dweud' TrC; sef platfform ar-lein sy'n agored i bawb weld gwybodaeth am ein cynigion ac ymateb i arolwg i roi adborth.

I gwblhau'r arolwg, rhaid i ymwelwyr greu cyfrif a rhoi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol. Mae hyn yn helpu i gasglu gwybodaeth ddemograffig i ddeall ychydig am bwy sy'n cymryd rhan. Gweler atodiad E am y wybodaeth ddemograffig y gofynnir amdani wrth gofrestru.

Cyflwynai ‘Dweud eich Dweud’ TrC wybodaeth gefndir am ddiwygio’r bysiau, cwestiynau cyffredin, gwybodaeth am y rhesymau am ein gweithgaredd ymgysylltu, gwybodaeth am ddigwyddiadau cyhoeddus, mapiau a'r arolwg.

### Mapiau

Cafodd mapiau eu creu a'u gosod ar-lein ar 'Dweud eich Dweud’ TrC ac ar fyrddau mawr i'w harddangos mewn sesiynau galw heibio i’r cyhoedd.  Fe wnaethom hefyd gynnal map rhyngweithiol ar 'Dweud eich dweud’ TrC.

Mae dolenni i'r mapiau i'w gweld yn atodiad A.

## Yr arolwg

Roedd yr arolwg ar-lein yn cynnwys awgrymiadau a chwestiynau i gasglu gwybodaeth adeiladu am y ffordd orau o fireinio'r rhwydwaith sylfaen arfaethedig. Ceid lle i ysgrifennu testun rhydd hefyd. Gweler atodiad B am yr arolwg yn ei gyfanrwydd.

I'r rhai a oedd yn methu â defnyddio'r arolwg ar-lein, roedd copïau papur i'w postio'n ôl atom neu i'w llenwi yn y digwyddiadau cyhoeddus a'u gadael gyda ni. Fe wnaethom hefyd roi hysbysiad ar ein safle i gynnig cymorth i unrhyw un oedd yn dymuno llenwi'r arolwg gyda help gan ein tîm cysylltiadau cwsmeriaid (darparwyd manylion cysylltu).

## Cyfarfodydd a Gweithdai

Fe wnaethom gynnal cyfarfodydd a gweithdai drwy gydol y cyfnod gyda'r grwpiau rhanddeiliaid a restrir uchod, a hefyd weithdai 'clywed gan safbwyntiau amrywiol' ym mhob sir, gyda grwpiau'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae gwybodaeth lawn ar gael yn atodiad D

## Digwyddiadau galw heibio cyhoeddus

Fe wnaethom gynnal digwyddiadau galw heibio cyhoeddus mewn 22 o leoliadau ar draws y rhanbarth a chymerom stondin yn Sioe Sir Benfro. Mae amserlen y digwyddiadau cyhoeddus i'w gweld yn atodiad F. Buom yn siarad ag oddeutu 700-800 o bobl yn ystod y digwyddiadau wyneb yn wyneb hyn.

Bu ein partneriaid o awdurdodau lleol yn Ne-orllewin Cymru a'r Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol yn ein helpu mewn nifer o ddigwyddiadau galw heibio cymunedol.

## Hyrwyddo'r ymgysylltu

Fe wnaethom hyrwyddo'r gweithgaredd ymgysylltu ar draws y rhanbarth, gan roi dolen neu god QR i 'Dweud eich Dweud' TrC i bobl gael rhagor o wybodaeth a chymryd rhan yn yr arolwg.

Fe wnaethom greu ymgyrch cyfryngau 'Eich rhwydwaith bws chi, eich llais chi' a'i rannu ar draws y cyfryngau cymdeithasol (Facebook ac Instagram), y cyfryngau traddodiadol (papurau newydd lleol), hysbysebion y tu allan i'r cartref (hysbysfyrddau, safleoedd bysiau, ar fysiau ac mewn gorsafoedd trenau), cardiau busnes (a ddosbarthwyd mewn safleoedd cyfnewid mewn trefi allweddol) a thrwy gyfryngau cymunedol lle roedd hynny'n bosibl. Fe wnaethom hefyd rannu adnoddau ein hymgyrch gyda'n rhanddeiliaid gan eu hannog i'w rhannu'n ehangach.

Mae enghreifftiau o ddeunydd yr ymgyrch i'w gweld yn atodiad G.

Cafwyd cyfanswm o 25,400 o ymweliadau â thudalen lanio Saesneg 'dweud eich dweud' a 5,600 â'r dudalen Gymraeg. Agorwyd yr arolwg 1,402 o weithiau (1,388 yn Saesneg ac 14 yn Gymraeg) ac fe'i cwblhawyd gan 679 o ymatebwyr.

# Canfyddiadau Cychwynnol

## Cyflwyniad

Daeth 679 o ymatebion i'r arolwg ar-lein i law a 18 i'r arolwg papur. Rydym hefyd wedi crynhoi'r safbwyntiau a rannwyd yn y sesiynau galw heibio cyhoeddus a'r adborth a gafwyd yn y gweithdai gyda rhanddeiliaid.

Mae'r ymatebion hyn yn ffurfio data meintiol a data ansoddol yn yr adroddiad hwn.

Cyflwynir y data meintiol mewn crynodeb lefel uchel isod. Mae'r set ddata lawn ar gael yma.

Cafodd yr ymatebion ansoddol eu trosglwyddo i raglen deallusrwydd artiffisial (AI) er mwyn crynhoi'r adborth yn y lle cyntaf. Roedd angen gwneud hyn oherwydd nifer yr ymatebion a ddaeth i law ac i helpu i greu strwythur iddynt a'u hadolygu a'u dadansoddi'n fwy trylwyr 'â llaw' yn ddiweddarach.

Mae'r adborth cyfunol hwn wedi amlygu nifer o themâu lefel uchel (sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad) gyda rhagor o adolygiadau manylach yn mynd rhagddynt.

## Demograffeg

Cawsom 679 o ymatebion i'n harolwg. Derbyniwyd 679 o ymatebion i'n harolwg, gyda gwybodaeth ddemograffig ar gyfer 37.1% o'r ymatebwyr. Lle mae gennym wybodaeth ddemograffig:

- Roedd 90.0% o'r ymatebwyr yn byw yn Ne-orllewin Cymru
- Roedd 74.1% o'r ymatebwyr yn defnyddio bysiau
- Roedd 51.5% o'r ymatebwyr yn fenywod
- Nododd 26.2% eu bod yn anabl.


## Crynodeb o'r canfyddiadau

- Byddai 60.0% o'r ymatebwyr yn fodlon newid rhwng bysiau neu drenau pe bai hynny'n golygu eu bod yn gallu cyrraedd pen eu taith yn gynt. Mae hyn yn awgrymu bod cysylltu gwasanaethau bysiau a threnau yn bwysig
- Roedd 53.8% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid ystyried newidiadau i'r rhwydwaith bysiau sy'n gwella lefel y gwasanaeth i'r mwyafrif o bobl, hyd yn oed os yw hynny'n achosi anhwylustod i rai pobl.
- Mae 27.0% o'r ymatebwyr o'r farn y bydd ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig ar gyfer 2027 yn well i Dde-orllewin Cymru. Mae 55.8% yn credu y bydd yr un fath neu ddim yn siŵr, ac mae 17.3% yn credu y bydd yn waeth.
- Roedd gwasanaethau anaml, a diffyg gwasanaethau bore, gyda'r nos ac ar ddydd Sul yn thema gyffredin.
- Roedd yn anodd casglu barn pobl ifanc gyda dim ond 2.8% o'r ymatebwyr yn bobl dan 25 oed.

# Crynodeb o'r canfyddiadau; data meintiol

## Y rhwydwaith sylfaen arfaethedig

Fe ofynnon ni i bobl yn y Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig a oedden nhw'n meddwl y byddai'r rhwydwaith yn well iddyn nhw, i bobl maen nhw'n eu hadnabod ac yn well i Dde-orllewin Cymru drwyddi draw. Dangosodd yr ymatebwyr y gefnogaeth fwyaf i'r Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig pan ofynnwyd iddynt a fyddai'n well i Dde-orllewin Cymru drwyddi draw.




Ffigur 1: Siart gylch yn dangos ymatebion i 'i ba raddau ydych chi'n credu y bydd ein Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig ar gyfer 2027 yn well i Dde-orllewin Cymru drwyddi draw?'

Roedd 27.0% o'r ymatebwyr yn cytuno y bydd y Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig ar gyfer 2027 yn well i Dde-orllewin Cymru drwyddi draw. Nid oedd 34.2% o'r ymatebwyr yn siŵr a fydd yn well, roedd 21.5% yn credu y bydd yr un fath, ac roedd 17.3% yn credu y bydd yn waeth.

Pan ofynnwyd a fyddai'r Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig yn well i'r unigolyn, cafwyd gwahaniaeth barn. Roedd 20.1% yn credu y bydd yn well iddyn nhw, ac roedd 19.1% yn credu y bydd yn waeth. Roedd 39.6% yn credu y bydd yr un fath ac roedd 21.2% yn dweud nad oeddent yn siŵr.

Yn yr un modd, pan ofynnwyd a fydd y Rhwydwaith Sylfaen yn well i'r bobl maen nhw'n eu hadnabod, credai 22.2% y bydd yn well, a chredai 18.3% y bydd yn waeth. Roedd 30.2% yn credu y bydd yr un fath a dywedodd 29.4% nad oeddent yn siŵr.

## Y llwybrau y rhoddwyd y mwyaf o sylwadau arnynt


Roedd y gweithgaredd i ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys 180 o wasanaethau bysiau, gan gynnwys 46 o newidiadau arfaethedig i wasanaethau. Gallai'r ymatebwyr roi adborth ar lwybrau yr oedd bwriad i'w newid a llwybrau nad oedd bwriad i'w newid. Dyma'r llwybrau a gafodd yr adborth mwyaf:

- g11 Abertawe - Caerfyrddin
- a2 Abertawe - Bae Cas-wellt/Newton
- 3A Bae Bracelet - Abertawe
- 381 Dinbych-y-pysgod - Hwlffordd
- a11 Abertawe - Casllwchwr/Llanelli
- a4 Singleton – Ysbyty Treforys.

## Cyfaddawdau

Wrth gynllunio rhwydwaith mae gofyn pwyso a mesur gwahanol ddewisiadau ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau i ddarparu rhwydwaith sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Gofynnwyd i bobl roi adborth ar y dewisiadau hyn. Fe ofynnon ni gyfres o ddatganiadau a gofyn i bobl i ba raddau roedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno. Dyma beth wnaethom ei ganfod:

- Byddai 60.1% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddent yn fodlon newid rhwng bysiau neu drenau pe bai hynny'n golygu eu bod yn gallu cyrraedd pen eu taith yn gynt.
- Roedd 53.8% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid ystyried newidiadau i'r rhwydwaith sy'n gwella lefel y gwasanaeth i'r mwyafrif o bobl, hyd yn oed os yw hynny'n achosi anhwylustod i rai pobl.
- Roedd 47.7% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad 'Byddai'n well gen i gerdded ymhellach i ddal y bws, er mwyn i mi allu cyrraedd pen fy nhaith yn gynt'. Fodd bynnag, roedd 46.3% hefyd yn anghytuno â'r datganiad 'Byddai'n well gen i aros yn hirach i fws ddod i'r safle agosaf at fy nghartref, hyd yn oed os yw hynny'n golygu bod fy siwrnai'n cymryd mwy o amser."




Ffigur 2: Siart far yn dangos yr ymatebion i'r datganiadau

``

# Crynodeb o'r canfyddiadau: data ansoddol

## Themâu allweddol

Yn yr arolwg, rhoesom nifer o gyfleoedd i ymatebwyr ysgrifennu ymatebion fel testun agored. Rydym wedi dadansoddi'r data hwn a gwelsom y themâu allweddol a godwyd gan ohebwyr:

- **Amlder:** gwasanaethau bysiau amlach i gyrraedd lle maen nhw eisiau mynd a denu mwy o deithwyr i ddefnyddio gwasanaethau bysiau.
- **Oriau gweithredu:** mwy o wasanaethau'n rhedeg yn gynnar yn y bore ac yn hwyrach gyda'r nos.
- **Gwasanaethau dydd Sul:** mwy o wasanaethau'n rhedeg ar ddydd Sul, gyda darpariaeth brin iawn o opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus ar ddydd Sul yn Ne-orllewin Cymru.
- **Perfformiad y gwasanaeth:** Ymysg y problemau a godwyd yr oedd gwasanaethau'n cael eu canslo oherwydd bod cerbydau'n torri i lawr a diffyg prydlondeb.
- **Integreiddio trenau a bysiau:** angen i amserlenni bysiau a threnau gydlynu'n well â'i gilydd, a lle bo'n bosibl, gwasanaethau bysiau i gysylltu'n well â gorsafoedd trenau.
- **fflecsi:** Mae gwasanaeth fflecsi helaeth yn cael ei redeg yn Sir Benfro. Roedd yr ymatebwyr o Sir Benfro fel arfer yn cyfeirio at y ffordd y câi'r gwasanaethau fflecsi eu rhedeg, gan rannu eu pryderon bod y broses o archebu gwasanaeth fflecsi yn golygu mai ychydig iawn sy'n eu defnyddio. Gofynnodd ardaloedd eraill yn Ne Orllewin Cymru a oes rôl i drafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw yn y Rhwydwaith Sylfaen.
- **Unigedd cymdeithasol a chysylltedd gwledig,** er enghraifft 'Darparu gwasanaeth gwell ac amlach mewn ardaloedd gwledig!"

Ymysg y themâu eraill a godwyd yr oedd:

- Gwella mynediad at gyrchfannau twristiaid.
- Roedd gorlenwi yn broblem gyda rhai gwasanaethau, yn enwedig yn Abertawe.
- Cyflwyno mwy o hybiau lleol i wasanaethau gysylltu â nhw yn hytrach na Hwlffordd, Caerfyrddin, Gorsaf fysiau Abertawe a Chastell-nedd.

Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i lywio gwelliannau uchelgeisiol i'r dyfodol os daw mwy o adnoddau i law.

## Themâu o'r Digwyddiadau Galw Heibio Cymunedol

Ni chafodd yr adborth llafar a gafwyd yn y digwyddiadau galw heibio cymunedol ei gofnodi air am air gan fod ein timau wedi siarad â dros 700 o bobl drwy gydol yr haf. Fodd bynnag, lluniwyd adroddiadau ar ôl pob digwyddiad i gofnodi'r themâu a godwyd.  Roedd y themâu allweddol, sef amlder, oriau gweithredu a gwasanaethau dydd Sul yn llinyn cyffredin drwy'r ymgysylltu wyneb yn wyneb a'r arolwg. Dyma rai themâu allweddol a godwyd yn y digwyddiadau galw heibio cymunedol:

- **Mynediad at ofal iechyd:** Dywedodd pobl wrthym ba mor anodd oedd iddynt deithio ymhellach ar fws i fynd i apwyntiadau gofal iechyd. Er enghraifft dywedwyd ei bod yn anodd cyrraedd Ysbyty Glangwili.
- **fflecsi:** Dywedodd trigolion Sir Benfro wrthym am eu profiadau yn defnyddio'r gwasanaethau fflecsi. Rhannodd rhai adborth cadarnhaol am y ffaith ei fod yn cynnig cyfleoedd newydd i deithio, a chyfeiriodd eraill at y diffyg defnydd a'r heriau sy'n gysylltiedig ag archebu ymlaen llaw.
- **Cysylltu bysiau a threnau:** Roedd yn gyffredin i bobl ddweud y dylai TrC wneud i amserlenni bysiau a threnau weithio'n well gyda'i gilydd.
- **Lefel y newid a'r uchelgais:** Teimlai rhai pobl fod y lefel gyfyngedig o newid yn y Rhwydwaith Sylfaen yn dderbyniol. Rhannodd rhai eraill eu disgwyliadau i rwydwaith mwy trawsnewidiol gael ei gyflwyno'n gynt.
- **Newidiadau ym Medi 2025:** Mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yng Nghastell-nedd, roedd rhai pobl yn disgwyl i'r ymgysylltu ganolbwyntio ar y newidiadau'r oedd y gweithredwr lleol yn eu cyflwyno ym Medi 2025 yn hytrach nag ar y Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig yn 2027.
- **Gwasanaeth bws Caerdydd i Abertawe:** Roedd hon yn thema gyffredin yn y digwyddiadau ymgysylltu yn Abertawe, gyda'r bobl yn gwneud sylwadau ar wasanaeth hanesyddol yr X10.
- **Diffyg gwasanaethau ar draws ac o amgylch y ddinas:** Cyfeiriodd rhai pobl yn Abertawe at y ffaith bod y rhwydwaith 'canolbwynt a chysylltiadau' yn Abertawe yn canolbwyntio gormod ar siwrneiau i mewn i Ganol y Ddinas.
- **Mynediad i'r Mwmbwls:** Poblogrwydd y Mwmbwls fel cyrchfan allweddol ac awgrymodd rhai pobl y dylid rhoi sylw i'r traffig ar Ffordd y Mwmbwls drwy fesurau ychwanegol, ochr yn ochr â gwasanaeth bws o ansawdd da.
- **Awydd am well cysylltiadau â Chymoedd De Cymru** fel Merthyr Tudful a Threorci.

Er bod y sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd wedi canolbwyntio'n bennaf ar y Rhwydwaith Sylfaen, roeddem eisiau clywed gan bobl am y ffactorau eraill sy'n siapio eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau bysiau yn y rhanbarth. Mewn digwyddiadau galw heibio cymunedol, rhoddai pobl yn aml adborth ar y canlynol:

- **Safleoedd bysiau a gwybodaeth i gwsmeriaid:** Roedd yn gyffredin i bobl ddweud wrthym am seilwaith o ansawdd gwael, a diffyg gwybodaeth ddiweddar, gywir.
- **Rôl trafnidiaeth gymunedol:** Teimlai rhai pobl y gellid darparu mwy o wybodaeth i bobl am y dewis o drafnidiaeth gymunedol sydd ar gael yn eu hardal. Rhannodd rhai pobl awgrymiadau i drafnidiaeth gymunedol gynnig gwell gwasanaeth yng nghefn gwlad.

- **Defnyddio cerbydau llai:** Roedd rhai o'r farn y gallai bysiau mini neu bysiau canolig eu maint fod yn well i rai ardaloedd gwledig, yn enwedig o ystyried y rhwydwaith ffyrdd a'r galw gan deithwyr.
- **Perfformiad y gwasanaeth:** Roedd y sylwadau'n cyfeirio at wasanaethau annibynadwy a'r ffaith bod y cerbydau yn y rhanbarth yn hen.
- **Adnabyddiaeth o'r gwasanaeth a'i frand:** Rhannwyd rhywfaint o adborth cadarnhaol ynghylch masnachfreinio bysiau gan awgrymu y byddai'n ddelfrydol i TrC gyflwyno un brand ar gyfer y gwasanaeth yn y rhanbarth.
- **Prisiau:** Rhoddodd rhai pobl adborth cadarnhaol ar y Tocyn Pobl Ifanc a gafodd ei lansio yn ddiweddar, dywedodd pobl eraill fod pris tocynnau bws yn rhy ddrud, a dywedodd pobl eraill fod pris tocynnau trên yn y rhanbarth yn rhy ddrud.

## Ymatebion Rhanddeiliaid

Gydol y ffenestr ymgysylltu, fe wnaethom gyflwyno'r sgwrs 'eich gwasanaeth bws chi, eich llais chi', i dynnu sylw at ein cynlluniau ymgysylltu, ac i annog pobl i lenwi'r arolwg (lle bo hynny'n berthnasol) yn ein paneli a'n cyfarfodydd rheolaidd i randdeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys Cyfarfodydd Rhanbarthol yr Awdurdodau Lleol (yn Ne-orllewin Cymru, De-ddwyrain Cymru, Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru), Panel Diwydiant Diwygio'r Bysiau, Panel Cynghori TrC, Grŵp Cyswllt Trafnidiaeth a Phanel Mynediad a Chynhwysiant TrC.

Ochr yn ochr â'n cyfarfodydd â rhanddeiliaid a drefnwyd, fe wnaethom gynnal gweithdai drwy gydol y cyfnod ymgysylltu a gwahodd rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth i gyfranogi. Ni ddaeth aelodau'r cyhoedd i'r gweithdai hyn. Rydym wedi amlinellu'r rhain isod, gyda chrynodeb o'r canfyddiadau.

### Fforwm Cynllunio Teithio Bae Abertawe - Gweithdy'r Rhwydwaith Sylfaen

Yn bresennol, yr oedd Prifysgol Abertawe, Trafnidiaeth i Bawb Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, DVLA, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol, Amgueddfa Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Ymysg y pwyntiau allweddol yr oedd pwysigrwydd llwybrau ar draws y ddinas, cyrraedd pobl ifanc drwy'r ymgysylltu, gweithio gyda chyflogwyr i ddeall patrymau teithio i'r gwaith, delio â thagfeydd a gwella cysylltedd â chanolfannau trafnidiaeth allweddol. Yn ogystal, codwyd manteision yr estyniad diweddar i'r gwasanaeth X1 newydd i gampws Singleton.

### Gweithdy Llwybrau at Addysg

Yn bresennol yr oedd Coleg Sir Benfro, Colegau Gŵyr, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Coleg Sir Gâr, Grŵp colegau NPTC.

Ymysg y pwyntiau allweddol yr oedd heriau parhaus yn ymwneud â gwasanaethau bysiau i fyfyrwyr coleg a phrifysgol, yn enwedig y ffaith nad oedd amserlenni bysiau yn cyd-fynd ag amseroedd academaidd ac nad oedd llwybrau digonol yn cysylltu campysau allweddol. Ceir consensws ynghylch yr angen i integreiddio sefydliadau addysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn well, gan gynnwys dull mwy cyson o ddarparu gwasanaethau a gwelliannau posibl i'r seilwaith. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd cynnig system brisio unedig i fyfyrwyr, ynghyd â'r angen i gydweithio ag awdurdodau lleol i gasglu data hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau ynghylch y materion hyn.

## Safbwyntiau Amrywiol gan...

Castell-nedd Port Talbot - Roedd yn sesiwn ddiddorol iawn lle clywyd amrywiaeth eang o straeon a phrofiadau o bob rhan o'r gymuned, ac roedd y rôl holl bwysig y mae gwasanaethau bysiau yn ei chwarae yn y gymuned yn un o'r themâu allweddol gan gynnwys i'r rheini sy'n teimlo unigedd cymdeithasol ac sydd â nodweddion gwarchodedig.

Abertawe - Sesiwn fywiog, ddiddorol ac emosiynol gyda straeon pwerus yn cael eu rhannu am brofiadau personol ac ehangach ar wasanaethau bysiau. Ymysg y themâu allweddol yr oedd pwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau bysiau'n hygyrch, bod rhwystrau'n cael sylw a pha mor allweddol ydynt i gynnal annibyniaeth llawer o bobl.

Sir Gaerfyrddin - Ni ddaeth unrhyw aelodau o'r gymuned i'r sesiwn hon.

Sir Benfro - Gwybodaeth wych gan aelodau Lleisiau Ifanc dros Ddewis a Chyngor Sir Penfro yn ystod y sesiwn hon. Cafodd profiadau cadarnhaol a negyddol eu trafod yn fanwl a thrafodwyd sut gellir gwella profiadau ar wasanaethau bysiau.

Rydym hefyd wedi cael rhywfaint o adborth ysgrifenedig gan randdeiliaid. Rydym wedi cydnabod ac ystyried yr adborth hwn fel rhan o'r gweithgaredd ymgysylltu hwn.

# Y camau nesaf

Rydyn ni'n gweithio gyda'r awdurdodau lleol partner i adolygu'r adborth ac i chwilio am gyfleoedd i ystyried yr adborth rydyn ni wedi'i gael. Rydym yn dal i fwriadu darparu'r Rhwydwaith Sylfaen gyda'r un lefel o adnoddau ag sy'n bodoli yn y system heddiw.

Ym mis Rhagfyr, byddwn yn cyhoeddi adroddiad arall sy'n disgrifio sut rydym wedi ystyried rhywfaint o'r adborth, a lle'r ydym wedi diweddaru'r Rhwydwaith Sylfaen Arfaethedig.

Y tu hwnt i hyn, rydym yn bwriadu cynnwys Rhwydwaith Sylfaen De-orllewin Cymru yng Nghynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru gyda chefnogaeth y rhanbarth. Byddwn wedyn yn creu amserlenni manwl i gyflwyno'r llwybrau a'r amleddau a nodir yn y Rhwydwaith Sylfaen, a bydd gweithredwyr yn bidio i ddarparu'r Rhwydwaith Sylfaen hwn. Mae hyn yn golygu y bydd y Rhwydwaith Sylfaen yn cael ei roi ar waith yn Ne-orllewin Cymru yn 2027. Efallai y bydd angen gwneud rhagor o newidiadau i'r rhwydwaith a byddwn yn rhoi gwybod am y rhain cyn i'r broses i Fasnachfreinio'r Bysiau ddechrau yn Ne-orllewin Cymru yn 2027.

Pan gyflwynir masnachfreinio, byddwn yn parhau i wrando ar gymunedau a gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r rhwydwaith bysiau ymhellach.